OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 579 (Cy.55) (C.50)

TRAFNIDIAETH, CYMRU

Gorchymyn Deddf Trafnidiaeth Leol 2008 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2009

Gwnaed - - - -	*9 Mawrth 2009*
Yn dod i rym - -	*1 Ebrill 2009*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 134(6) o Ddeddf Trafnidiaeth Leol 2008(**1**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Trafnidiaeth Leol 2008 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2009 ac mae'n gymwys o ran Cymru.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "Deddf 1985" ("*the 1985 Act*") yw Deddf Trafnidiaeth 1985;(**2**); ac

ystyr "Deddf 2000" ("*the 2000 Act*") yw Deddf Trafnidiaeth 2000 (**3**);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Trafnidiaeth Leol 2008;

Cychwyn ar ddarpariaethau trafnidiaeth leol o ran Cymru

2. 1 Ebrill 2009 yw'r diwrnod penodedig ar gyfer dyfod i rym y darpariaethau canlynol o'r Ddeddf, yn ddarostyngedig i'r darpariaethau trosiannol a restrir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn—

(a) Adran 7, ac yn unol â hynny Atodlen 1.

(b) Adran 8 i adran 12 yn gynhwysol.

(c) Adran 13(1) (i'r graddau y mae'n ymwneud ag adran 13(2)) ac adran 13(2).

(ch) Adran 46, ac yn unol â hynny, Atodlen 2.

(d) Adran 64.

(dd) Adran 65(1).

(e) Adran 68(1) (i'r graddau y mae'n ymwneud ag adran 68(3)) ac adran 68(3).

(**1**) 2008 p.26.
(**2**) 1985 p.67.
(**3**) 2000 p.38.

(f) Adran 69 i adran 71 yn gynhwysol.

(ff) Adran 75.

(g) Adran 103 i adran 108 yn gynhwysol.

(ng) Adran 109, ac, yn unol â hynny, Atodlen 5.

(h) Adran 110 i adran 111 yn gynhwysol.

(i) Adran 112(1).

(j) Adran 113(1) i (4) yn gynhwysol.

(l) Adran 114.

(ll) Adran 115(1) i (2) yn gynhwysol.

(m) Adran 116(1) i (3) yn gynhwysol.

(n) Adran 117(1).

(o) Adran 118(1) i (5) yn gynhwysol.

(p) Adran 121 (i'r graddau y mae'n ymwneud â Rhan 1 o Atodlen 6) a Rhan 1o Atodlen 6.

Ieuan Wyn Jones
Y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth,
un o Weinidogion Cymru.

9 Mawrth 2009